CYFARFOD: **Y CYNGOR LLAWN**

DYDDIAD: **2 HYDREF 2025**

PWNC: **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024-25**

AWDUR: **CARYS EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

SWYDDOG CYSWLLT: **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID**

---

**1.** Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn bwyllgor statudol. Cyflwynir gerbron y Cyngor llawn yr adroddiad blynyddol sy’n cwmpasu gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn 2024/25, gan amlygu sut mae’r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a sut mae’n ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.

**2.** Dyma’r trydydd tro i adroddiad blynyddol o’r fath gael ei baratoi, yn unol ag argymhelliad cryf CIPFA. Ymhellach, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Pwyllgor adrodd ar ganlyniadau ei waith mewn meysydd penodol (fel amlinellir ym mharagraff 8 o’r adroddiad Blynyddol), ac ystyrir fod yr adroddiad hwn yn cyflawni'r gofyn hynny.

**3**. Mae canllawiau CIPFA yn nodi:

***“Dylai'r pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos ei effaith”.***

**4.** Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 11 Medi, ac yn cyflwyno’r adroddiad hwn i sylw’r Cyngor. Mae sylwadau aelodau’r Pwyllgor yn y cyfarfod wedi cael eu hymgorffori yn y fersiwn a gyflwynir i'r Cyngor.

**Argymhelliad**

**5.** Derbyn yr adroddiad.

**Atodiad:**
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25

---

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**
Rwy’n croesawu yr adroddiad ar waith y Pwyllgor . Mae yn galonogol gweld eu bod yn parhau i gyfarch y gofynion newydd sydd arnynt yn gadarnhaol ac effeithiol.

**Prif Swyddog Cyllid**
Swyddog Cyfrifol